**Border Target Operating Model (BTOM) and the Trade in Plants and Trees**

The Horticultural Trades Association (HTA) welcomed certain aspects of the model, such as commitments to digitise phytosanitary certificates and for the government to create a consultative business readiness group. However, it also expresses disappointment in other areas that could have critical implications for the horticultural sector and says that the BTOM is potentially a missed opportunity for UK horticulture.

Fran Barnes, Chief Executive at the Horticultural Trades Association (HTA), said, "Our unwavering focus has consistently centred on ensuring the seamless, swift and secure movement of plants and plant products, whilst protecting the UK against biosecurity threats. While we acknowledge the positive strides made with the formal release of the Border Target Operating Model, the model doesn't go far enough in adequately addressing the legitimate needs of the horticultural sector.

"**One major concern lies in the readiness of Border Control Posts (BCPs) to handle the diverse range of imports received by the horticultural sector from the EU. We welcome the proposed delay to the introduction of checks at BCPs until 30 April 2024.** However, we are disappointed that this date is inconveniently placed in the middle of the high season for the plant trade and that the delay is not long enough to complete the proposed pilot of the Authorised Operator Status model.

"Since January 2021, the industry has followed import and export requirements outlined in the Trade & Co-operation Agreement (TCA) due to the absence of a Sanitary Phytosanitary (SPS) or plant health agreement with the EU. However, it is clear there needs to be better dialogue between the EU and the UK regarding plant imports. Given that the value of imported plant material surpassed £753 million in 2022, constituting half of the cumulative value of the UK's trees, plants, seeds, and bulbs production sector, it is imperative that we impress upon the government the need for ongoing refinement of the BTOM.

"Furthermore, this issue will impact garden centre customers: the expected costs of full border controls to the supply chain are estimated to top £42m per annum (at existing pre-notified consignment numbers). **Therefore, beyond 2024, this would equate to a 4.5% cost increase for no material gain.** And there is also potential that plant ranges will be restricted or delayed, meaning a reduced choice for garden enthusiasts."

The HTA emphasises the importance of meticulous planning, thorough testing, and effective communication to ensure a smooth transition to any new trade system, recognising the significance of the horticulture industry.

The following concerns still need to be addressed:

- **Systems, processes and equipment must be thoroughly tested**, preferably using a soft launch approach. The seamless integration of technology is key to a successful border, and clear timelines on business-critical upgrades to current systems, such as IPAFFS, e-phyto and CITES, need to be set out with some urgency.

- **Control Points as an alternative to BCPs for businesses.** While the 3-month delay gives more time for businesses to complete Control Point designation, the government should allocate sufficient resources to assist businesses through the process in a timely and cost-effective manner. There is also still no surety of costs, and the ability to compare BCP costs with CP costs is still not evident.
- **The detail of the Authorised Operator Model status (AOS) and its accessibility for horticulture businesses** – The HTA continue to be concerned about the AOS model, its pilot and subsequent launch. The proposed timings do not afford a seamless transition for businesses from the point of designation system to Control Points status and achieving AOS. The process for attaining AOS is still unclear, with costs and processes unpublished.

The HTA, representing over 1,500 members across the UK environmental horticulture sector, plays a crucial role in the industry. The association is committed to working collaboratively with the Government to ensure that the plant trade remains a top priority.

**Windsor Framework and the Trade in Plants, Trees and Seed Potatoes**

The HTA welcomes the Windsor Framework and recognises the effort and difficulties involved to achieve a negotiated outcome. Resuming trade into Northern Ireland is of huge importance to many HTA members, who have seen an almost complete cessation of trade into Northern Ireland. Trade relationships which had existed for decades have been lost or reduced while many previous NI businesses now buy plants direct from continental EU suppliers, with the orders transiting across GB in order to reach NI.

In the PM's speech announcing the Windsor Framework on the 27th of February 2023 he said, "The same quintessentially British products like trees, plants and seed potatoes will once again be available in Northern Ireland garden centres." However, when we reviewed the detail we realised the statement does not reflect the reality our members will experience, nor what NI consumers will see, because there are several substantial issues that remain unresolved around the trade in trees, plants and seed potatoes.

Below we set out the main issues:

- The proposed Northern Ireland Plant Health Label (NIPHL) still requires plants & plant products to **comply with EU Plant health rules**, still requires NI businesses to prenotify the authorities using the EU's TRACES system and still means onerous administration & compliance from GB suppliers. The NIPHL only removes the need for an official to inspect.
- There will still be **several key species of trees and plants that will remain prohibited** for exporting to Northern Ireland. Iconic and popular native British species such as hawthorn, hazel and cherry along with honeysuckle and jasmine will still be banned. This represents £millions of lost trade and biodiversity. While the existing "High Risk Plant" dossiers

already submitted to EFSA have been expedited, the remaining 40 prohibited plants will still need to follow the existing procedure, which takes years to complete.

- **Seed potatoes sourced in Great Britain will not be able to be sold in NI garden centres**, nor directly to consumers via mail order, only grower to grower, with NI consumers missing out on direct access. Official certification is still required, under the NIPHL scheme.
- Northern Irish consumers will find it **difficult and costly to order plants from British based online sellers and mail order** growers due to the requirement for phytosanitary certificates remaining for parcels of plants sent from GB businesses to NI consumers there is no easement for parcels going business to consumer, only privately sent parcels.
- For Northern Irish growers there is uncertainty about when a GB-sourced plant **becomes a Northern Irish good** this may mean Northern Irish businesses will decide to buy from EU suppliers to ensure their goods can subsequently be sold in the EU.
- There will be difficulties around **regaining business lost to EU-based suppliers**. GB businesses who make the decision to re-establish their market in NI will be competing against EU businesses that will still be able to sell to NI growers and garden centres directly, with no administrative burden or phytosanitary prohibitions or requirements.
- There are legitimate concerns around the **extra administrative burdens for businesses.** Commercial information will still need to be supplied to authorities and authorisation audits will need to be passed to enable the NIPHL to be applied. This means extra cost and resource requirements.
- Retailers who previously used the STAMNI scheme **cannot use the replacement scheme for retailers (NIRMS)** to move plants GB to NI**.** They will need to implement the NIPHL scheme, which means two schemes where previously there was only one. Potted herbs, pot plants, containerised Christmas trees and houseplants are all now outside of NIRMS.
- All this extra burden makes crop and **supply chain planning** for this year and beyond even more difficult - meaning the cost of doing business in and with Northern Ireland is also unclear and expected to rise.

Government decisions & subsequent guidance have been extremely slow to be produced and provided. For example, it was only on the 27th September that a "Pro-Forma" was published that GB suppliers /consignors would need to fill in for NI receiving businesses/consignees. HTA have discovered that each and every decision would need to be ratified by the EU before being issued to businesses – so if any stakeholder raised a new question and any new clarifications or decisions were needed, then this had to go back to the EU for decision.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 5

## Papur Tystiolaeth

### Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

### Safleoedd Rheolaethau'r Ffin

Dydd Mercher 11 Hydref 2023 – 11.00 – 12

**Model Gweithredu Targed y Ffin – Diweddariad**

Cyhoeddwyd Model Gweithredu Targed y Ffin terfynol ar 29 Awst 2023. Mae'r model gweithredu terfynol yn nodi dull newydd o fewnforio i Brydain Fawr, rheolaethau diogelwch (sy'n berthnasol i'r holl fewnforion), a rheolaethau iechydol a ffytoiechydol (sy'n berthnasol i fewnforio anifeiliaid byw, cynhyrchion anifeiliaid, planhigion a chynhyrchion planhigion) ar y ffin. Mae pdf wedi'i gynnwys yn atodiadau'r papur hwn.

Fe wnes i ddatganiad ysgrifenedig i'r Senedd ar y pryd: Datganiad Ysgrifenedig: Cyhoeddi Model Gweithredu Targed y Ffin newydd 29 Awst 2023 LLYW>CYMRU. Atodwyd fel atodiad 4.

Mae o fudd i ni gael agwedd gydlynol tuag at ein ffiniau ar draws Prydain Fawr.

Mae'r model gweithredu yn ymgorffori ac yn ymateb i adborth gan randdeiliaid ar ddrafft cynharach Model Gweithredu Targed y Ffin lle bynnag y bo modd. Fe'i datblygwyd drwy gydweithio ar draws y Llywodraethau datganoledig, ac ymgysylltu â swyddogion o'r weinyddiaeth ddatganoledig yng Ngogledd Iwerddon.

Dyma oedd cyngor ein harbenigwyr:

- Argymhellodd yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) fod Gweinidogion Cymru yn cytuno â'r Model Gweithredu Targed. Mae'r ASB yn dal i fod o'r farn y dylid cyflwyno rheolaethau ar nwyddau yr UE cyn gynted â phosibl, ond y gallwn oddef oedi byr er mwyn eu rhoi ar waith yn well.
- Argymhellodd y Prif Swyddog Milfeddygol fod Gweinidogion Cymru yn cytuno â'r Model Gweithredu Targed. Mae'r Prif Swyddog Milfeddygol o'r farn y byddai'n gwella'r sefyllfa bresennol trwy gyflwyno rheolaethau sy'n seiliedig ar

risg ar y mwyafrif helaeth o fewnforion o'r UE, a'i gyflwyno cyn gynted â phosibl fyddai'r ffordd fwyaf effeithiol o leihau'r risg i fioddiogelwch. Roedd yn glir bod rhaid sicrhau na fydd rhagor o oedi cyn ei roi ar waith.

- Argymhellodd y Prif Swyddog Iechyd Planhigion fod Gweinidogion Cymru yn cytuno â'r Model Gweithredu Targed gan fod planhigion sydd wedi'u tyfu yn Iwerddon yn gymharol isel o ran risg. Mae'r categori risg ar gyfer rhai cynhyrchion planhigion yn cael ei osod ar 'isel' pan ddaw'r Model Gweithredu Targed i rym, gydag adolygiad risg i ddilyn yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf.

Mae gan y Model Gweithredu Targed amserlen ddiweddarach ar gyfer gwiriadau ffisegol ar nwyddau a fewnforiwyd o Iwerddon i ddod i rym ym mhorthladdoedd arfordir y gorllewin - gan gynnwys tri Safle Rheolaethau'r Ffin yng Nghymru, sef Caergybi, Doc Penfro ac Abergwaun.

Roeddem wedi bwriadu rhoi trefniadau rhag-hysbysu ac ardystio ar waith erbyn mis Hydref 2023, fel y nodir yn y Model Gweithredu Targed drafft a gyhoeddwyd ym mis Ebrill eleni. Penderfynom beidio â chyflwyno'r cais hwn nawr bod Llywodraeth y DU wedi gohirio'r camau hyn. Rydym nawr yn bwriadu rhoi'r ddau ar waith ar yr un amserlen â phorthladdoedd eraill y DU, ym mis Ionawr 2024.

Y bwriad yw rhoi gwiriadau ffisegol ar waith, nid cyn mis Hydref 2024, er bod y dyddiad hwn i'w gadarnhau o hyd. Mae cryn dipyn o waith i'w wneud o hyd gyda Llywodraeth y DU ac eraill i gadarnhau model cydlynol ar gyfer holl arfordir Gorllewin Prydain Fawr, er mwyn osgoi sgil-effeithiau anniogel ac annheg a rhoi sicrwydd i fasnachwyr.

Ar gyfer masnachwyr sy'n mewnforio cynhyrchion bwyd, anifeiliaid byw, cynhyrchion anifeiliaid, planhigion neu gynhyrchion planhigion i Brydain Fawr, gallant nawr wirio lefel risg Model Gweithredu Targed pob nwydd i fod yn barod ar gyfer newidiadau sydd ar y gweill i brosesau'r ffin.

• O wledydd yr UE: Gweld categorïau risg Model Gweithredu Targed y Ffin ar gyfer Planhigion a Chynhyrchion Planhigion
• O wledydd yr UE: Gweld categorïau risg Model Gweithredu Targed y Ffin ar gyfer Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid

Mae'n hanfodol bod gennym reolau clir a gorfodadwy ar gyfer nwyddau sy'n dod o ynys Iwerddon i Brydain Fawr. Heb hynny, ni fydd yr awdurdodau na'r masnachwyr yn gwybod digon i allu paratoi ar gyfer gweithredu'r gwiriadau hyn yn esmwyth.

Rydym yn benderfynol o roi rhybudd rhesymol i fusnesau baratoi ar gyfer gwiriadau ffisegol llawn. Mae'r Model Gweithredu Targed yn cadarnhau na fydd gwiriadau ffisegol yn dechrau yng Nghymru tan ddiwedd mis Hydref 2024 ar y cynharaf.

**Diweddariad am Safle Rheolaethau'r Ffin Caergybi**

Yn dilyn oedi wrth ddatblygu'r Model Gweithredu Targed, manteisiwyd ar y cyfle i adolygu Safle Rheolaethau'r Ffin arfaethedig yng Nghaergybi gyda'r bwriad o ystyried maint a chost. Mae achos busnes llawn bellach yn cael ei glirio i'w gyflwyno i Drysorlys Ei Fawrhydi ym mis Hydref 2023. Rydym yn bwrw ymlaen â chynlluniau ar Lain 9 Parc Cybi, gyda chyfleuster llai yn gwneud mwy o ddefnydd o fannau a rennir a threfniadau glanhau dwysach. Mae'r cynllun wedi cael ei adolygu'n feirniadol i leihau gwaith ychwanegol, er enghraifft osgoi tir gwael, a gwneud y mwyaf o waith adeiladu blaenorol fel yr arwynebedd cerbydau nwyddau trwm presennol.

Mae angen ffurfioli'r ailgynllunio i ganiatáu i gytundeb, prisio, ac adeiladu dilynol ddechrau o fis Chwefror 2024. Mae gwaith galluogi pellach wedi'i gynllunio ar gyfer mis Hydref/Tachwedd 2023 i sicrhau gwaith adeiladu amserol. Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i ariannu'r costau angenrheidiol.

Byddwn yn tendro ar gyfer gweithredwr trydydd parti ac yn trafod oriau agor a manylion gweithredol gyda Chyngor Sir Ynys Môn, yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion ac eraill sydd â diddordeb. Ni all y gwaith tendro ddechrau nes ein bod yn gwybod sut y bydd y Tâl Cyffredin i Ddefnyddwyr yn gweithredu.

Ymwelodd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig â safle arfaethedig rheolaethau'r ffin yng Nghaergybi ar 13 Gorffennaf 2023 a chafodd ei ddiweddaru ar:

- Gwaith tir wedi'i gwblhau hyd yma
- Tynnu'n ôl o Lain 9 yn ystod y cam ailgynllunio

- Diben yr ailgynllunio
- Llinell amser ar gyfer Safle Rheolaethau’r Ffin
- Parcio lorïau yn Llain 9 ar hyn o bryd ac yn y dyfodol
- Effaith ar lif traffig yn yr ardal a'r effaith ar drigolion lleol

Gwaith paratoi’r tir wedi'i gwblhau hyd yma

Mae’r gwaith cychwynnol i baratoi’r tir er mwyn gosod pibellau draenio a newid y llwybr troed a chynllun y ffordd ar y safle wedi'u cwblhau. Dim ond lle gwyddys nad ydynt yn peryglu newidiadau dylunio yn y dyfodol y gwnaed gwaith.

Tynnu'n ôl o Lain 9 yn ystod y cam ailgynllunio

Rydym wedi cyfarwyddo Kier Construction i adael y safle gan eu bod wedi cwblhau'r gwaith a nodwyd yn wreiddiol, ac mae'n fwy cost effeithiol aros tan ddiwedd mis Medi 2023 cyn bwrw ymlaen ag unrhyw waith pellach o ran paratoi’r tir. Mae'r safle bellach wedi'i adael a'i ddiogelu.

Pwrpas yr ailgynllunio

Mae gostyngiadau i'r nifer arfaethedig o wiriadau ffisegol wedi arwain at fod angen llai o le. Daeth adolygiad ar y cyd a gynhaliwyd gan CThEF a Swyddfa Cabinet Llywodraeth y DU i archwilio darpariaeth amgen i'r casgliad mai Llain 9 oedd yr ateb mwyaf cost-effeithiol. O ganlyniad, rydym wedi ailgynllunio Safle Rheolaethau’r Ffin i wneud y gorau o'r safle (trwy ailgynllunio'r llwybr mynediad i osgoi cwrs dŵr ymhlith newidiadau eraill) ac mae'r adeiladau wedi'u rhesymoli i leihau lle nad yw'n cael ei ddefnyddio.

Llinell amser ar gyfer Safle Rheolaethau’r Ffin

Bydd ailgynllunio yn digwydd dros y 4 mis nesaf o fis Medi 2023. Gweithio gyda Llywodraeth y DU i nodi dyddiad gweithredol, wedi'i gydlynu ar hyd Arfordir y Gorllewin ac yn unol â gofynion Fframwaith Windsor. Bydd hyn yn cynnwys y ddarpariaeth ar gyfer porthladdoedd Sir Benfro.

Parcio lorïau yn Llain 9 ar hyn o bryd ac yn y dyfodol

Mae Llywodraeth Cymru wedi hwyluso parcio cerbydau nwyddau trwm dros dro ar ôl cau safle Road King. Mae angen nodi datrysiad tymor hwy a'i ariannu'n gynaliadwy. Yn y cyfamser, mae'r ddarpariaeth wedi defnyddio buddsoddiad cyfalaf blaenorol ac mae'n rheoli pryderon lleol dros barcio lorïau sydd wedi'u dadleoli, gan gefnogi arferion busnes cyfredol yn yr ardal.

Effaith ar lif traffig yn yr ardal a'r effaith ar drigolion lleol

Mae Parc Cybi wedi'i ddynodi ar gyfer datblygiad masnachol ac ystyrir bod nifer y cerbydau yn isel o'i gymharu â modelau busnes amgen (e.e. warws dosbarthu 24 awr neu debyg).

**Diweddariad am Safle Rheolaethau'r Ffin yn Sir Benfro**

Yn Sir Benfro, ein safbwynt oedd aros am gytundeb y Model Gweithredu Targed cyn penderfynu ar y ffordd ymlaen. O ganlyniad i'r nifer is o wiriadau sy'n ofynnol gan y Model Gweithredu Targed , mae 'ôl-troed' Safle Rheolaethau'r Ffin cysylltiedig yn llai. Mae hyn, yn ogystal â thir porthladd nad oedd ar gael o'r blaen bellach wedi golygu y gall Safleoedd Rheolaethau'r Ffin yn Noc Penfro ac Abergwaun bellach ffitio ar borthladd. Rydym wedi cadarnhau gyda Llywodraeth y DU bod y polisi yn parhau i fod yn berthnasol, sef *'os gall Safle Rheolaethau'r Ffin ffitio ar y porthladd dylid ei leoli ar borthladd'* sy'n arwydd o'r hyn sydd bellach yn ddull gweithredu sylweddol wahanol yn Sir Benfro o'i gymharu â'r cysyniad blaenorol o ran un Safle Rheolaethau'r Ffin mewndirol a ddeilliodd o asesiadau gwreiddiol Llywodraeth y DU yn 2019/20.

Mae Llywodraeth Cymru bellach mewn trafodaethau parhaus gyda rheolwyr porthladdoedd yn Noc Penfro ac Abergwaun ynghylch trefniadau ar gyfer darparu ar y porthladd, a ddatblygwyd mewn partneriaeth i dynnu ar arbenigedd Llywodraeth Cymru sy'n deillio o'n profiad ar Safle Rheolaethau'r Ffin yng Nghaergybi. Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu'r cynllun cychwynnol a bydd cynllun grant a ariennir gan Lywodraeth y DU, sy'n cael ei redeg gan Lywodraeth Cymru, yn ariannu gwaith adeiladu Safle Rheolaethau'r Ffin gan y porthladdoedd eu hunain. Disgwylir i AAS / ABA gael ei gyflwyno ym mis Hydref gyda'r bwriad o gyflwyno achos busnes terfynol i Drysorlys Ei Fawrhydi ym mis Rhagfyr.

Bydd Safleoedd Rheolaethau’r Ffin ym mhorthladdoedd Sir Benfro yn weithrediadau masnachol. Bydd cwmpas y cyfleusterau ar eu cyfer yn fater i'r porthladdoedd benderfynu arnynt, gyda chyngor gan Lywodraeth Cymru ar yr hyn sydd ei angen i weithredu'n effeithiol.  Ar y cyd â rhanddeiliaid allweddol a phartneriaid cyflawni, bydd y porthladdoedd hefyd yn pennu eu horiau agor eu hunain ar gyfer Safleoedd Rheolaethau’r Ffin.

Bydd Safleoedd Rheolaethau’r Ffin yn Sir Benfro yn defnyddio adeiladau parod o ansawdd uchel (gydag oes dylunio o 15-20 mlynedd) a dyluniadau pwrpasol a luniwyd gan Lywodraeth Cymru sy'n tynnu ar yr hyn a ddysgwyd a'r profiad a gafwyd wrth ddatblygu dyluniad Safle Rheolaethau’r Ffin yng Nghaergybi. Gyda'i gilydd, mae'r opsiwn hwn ar borthladd, sy'n cael ei redeg gan borthladdoedd, gyda chymorth Llywodraeth Cymru yn cydymffurfio â pholisi Llywodraeth y DU, yn cynnig y gwerth gorau o ran costau gweithredu a gweithrediadau parhaus isaf, y buddion mwyaf a'r siawns orau o gyflawni'r ddarpariaeth ar gyfer diwedd mis Hydref 2024.

Mae Swyddfa Cabinet y DU wedi bod yn ymwneud yn llwyr â Datblygu AAS / ABA Sir Benfro a bydd yn ei gefnogi mewn trafodaethau dilynol gyda’r Trysorlys.

Bydd y cyfleuster yn Noc Penfro wedi'i leoli ar safle sy'n cyflwyno her dechnegol lefel isel o ran ei adeiladu. Fodd bynnag, mae'r cyfleuster yn Abergwaun yn fwy cymhleth, sy'n cynnwys cloddio (ac ailddefnyddio) swm sylweddol o graig a chynnal arolygon ecoleg.  Er ei bod yn dal yn bosibl darparu cyfleuster dynodedig ar gyfer ei roi ar waith ar gyfer 31 Hydref 2024, byddai hyn yn ddibynnol ar ychydig iawn o risgiau'r prosiect yn mynd yn broblemau ac yn peri oedi.

**Codi tâl**

Mae'r Model Gweithredu Targed terfynol yn cadarnhau bwriad i adennill costau gweithredu ar gyfer Safleoedd Rheolaethau’r Ffin sy'n cael eu rhedeg gan y Llywodraeth gan ddefnyddio Tâl Cyffredin i Ddefnyddwyr ar bob llwyth sy'n gymwys i gael gwiriadau Iechydol a Ffytoiechydol (p'un a ydynt yn cael eu dewis i'w gwirio ai peidio) sy'n mynd i mewn trwy Borthladd Dover ac Eurotunnel yn unig.

Dywed y Model Gweithredu Targed, *'Mae Llywodraeth y DU yn parhau i weithio'n agos gyda'r Llywodraethau Datganoledig ar bolisi codi tâl, ac mae'n gweithio tuag at ymestyn y trefniadau hyn i gwmpasu Safleoedd Rheolaethau'r Ffin eraill sy'n cael eu rhedeg gan y llywodraeth ym Mhrydain Fawr yn y dyfodol.'*

Dywed y Model Gweithredu Targed, *'Bydd gwybodaeth atodol am drefniadau codi tâl ar Safleoedd Mewndirol yn cael ei chyhoeddi yn hydref 2023.'* Fodd bynnag, mae'r llinell amser ymhellach i lawr yn y ddogfen yn nodi Rhagfyr 2023 ar gyfer trefn codi tâl Gwiriadau Iechydol a Ffytoiechydol ar gyfer Safleoedd Rheolaethau'r Ffin sy'n eiddo i'r Llywodraeth a mis Rhagfyr 2023 i fis Mawrth 2024 ar gyfer taliadau AIP/ALlau.

Bydd Caergybi yn rhan o'r Tâl Cyffredin i Ddefnyddwyr ar gyfer Safleoedd Rheolaethau'r Ffin sy'n cael eu rhedeg gan y Llywodraeth. Rydym yn trafod gyda Llywodraeth y DU ynghylch sut y bydd hyn yn cael ei ddatblygu.

Yn Sir Benfro, fodd bynnag, bydd y porthladdoedd yn penderfynu sut i osod eu taliadau a sut i ddosbarthu'r costau hynny ar draws eu gweithrediadau.

- Mae Llywodraeth y DU yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ynghylch trefniadau codi tâl mewn Safleoedd Rheolaethau'r Ffin a gaiff eu rhedeg gan y llywodraeth (12 Mehefin i 9 Gorffennaf) ym mis Hydref 2023
- Mae trafodaethau'n parhau, i gytuno sut y gallai manylion y Tâl Cyffredin i Ddefnyddwyr weithio yng Nghymru, a fydd wedyn yn llywio'r cyngor i Weinidogion.

Bydd angen i'n hawdurdodau lleol ac Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion weithredu trefniadau codi tâl am archwiliadau newydd hefyd. Mae trafodaethau'n parhau ac rydym yn disgwyl derbyn cynigion ar gyfer y costau sefydlu.

**Gweithrediadau Safle Rheolaethau'r Ffin**

Ar hyn o bryd mae'r Tîm Gweithrediadau yn cwblhau manyleb gweithredwr er mwyn cael gweithredwr ar gyfer safle Caergybi. Y dull a ffefrir ar hyn o bryd yw contractio

naill ai Trafnidiaeth Cymru (TrC) neu Stena Line i redeg Safle Rheolaethau’r Ffin. Mae hyn yn amodol ar gael rhagor o wybodaeth am y drefn codi tâl i wybod sut y bydd y gweithredwr yn cael ei dalu. Os na fydd y dull gweithredu hwn yn cael ei wireddu, y dewis nesaf yw tendro i gontractio gweithredwr trydydd parti i redeg Safle Rheolaethau’r Ffin, yn debyg i dendr CThEF ar gyfer cyfleuster ffin mewndirol yng Nghaergybi a Sevington.

Bydd gweithrediadau Doc Penfro ac Abergwaun yn cael eu rheoli gan Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau a Stena Line yn y drefn honno. Mae'r tîm Gweithrediadau yn gweithio gyda hwy a'r ALlau perthnasol.

**Eraill - Nwyddau Cymwys Gogledd Iwerddon**

Mae gwaith yn parhau i fynd rhagddo o fewn Llywodraeth y DU o ran sut y dylid trin eitemau nad ydynt yn Nwyddau Cymwys Gogledd Iwerddon i sicrhau nad yw arfordir gorllewinol Prydain Fawr yn cael ei ystyried yn 'ddrws cefn'. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys y goblygiadau ar gyfer bioddiogelwch.

**Eraill - Oriau Agor**

Ar gyfer Caergybi, rydym yn gweithio o dan y dybiaeth o weithrediad 24 awr sy'n gweithredu 364 diwrnod y flwyddyn (dim llongau fferi yn gweithredu ar ddydd Nadolig) oni bai bod y porthladd yn penderfynu fel arall. Y bwriad yw lleihau hyn unwaith y bydd y safle'n gweithredu i wneud y mwyaf o arbedion effeithlonrwydd a lleihau costau.

Bydd Doc Penfro ac Abergwaun yn gweithredu yn ôl y galw pan fydd nwyddau i'w gwirio yn dod i mewn i Safleoedd Rheolaethau’r Ffin oherwydd bod niferoedd is yn cyrraedd y cyfleusterau hyn, ond mae'r oriau agor yn benderfyniad masnachol i'r porthladdoedd.

## Atodiadau ynghlwm

| | |
|---|---|
| **Atodiad 1:** Model Gweithredu Targed y Ffin terfynol 29 Awst 2023 | Final_Border_Target_ Operating_Model_We<br><br>Model Gweithredu Targed y Ffin |
| **Atodiad 2**: Llythyr at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ynghylch cyhoeddi Model Gweithredu Targed y Ffin 290823 | VG-PO-0288-23 - Letter to ETRA...<br><br>https://busnes.senedd.cymru/documents/s139304/Llythyr%20gan%20Weinidog%20yr%20Economi%2029%20Awst%202023.pdf |
| **Atodiad 3**: Llythyr at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ynghylch Partneriaeth Porth y Gorllewin, strwythurau Llywodraeth y DU, Fframwaith Windsor a Model Gweithredu Targed y Ffin. | Letter to ETRA Committee (Western<br><br>https://busnes.senedd.cymru/documents/s138737/Llythyr%20gan%20Weinidog%20yr%20Economi%2024%20Gorffennaf%202023.pdf |
| **Atodiad 4 Datganiad Ysgrifenedig** | Datganiad Ysgrifenedig Cyhoeddi Model Gweithredu Targed y Ffin newydd 29 Awst 2023<br><br>29 Awst 2023 |